**Rhif:** WG52053

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Cynlluniau addysg personol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

## Canllawiau drafft i ymarferwyr

Mawrth 2026

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol

## Trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r safbwyntiau a gyflwynwyd gan ymatebwyr i ganllawiau drafft i ymarferwyr ar gynlluniau addysg personol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## Y camau y mae angen eu cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Cyflawniad – Y Gangen Tegwch mewn Addysg
Is-adran Tegwch mewn Addysg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: TegwchMewnAddysg@llyw.cymru

This document is also available in English: Personal education plans for children looked after: draft guidance for practitioners

@LIC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: Cynlluniau addysg personol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal: canllawiau drafft i ymarferwyr

## Cynnwys

**Cyflwyniad** **4**

**Ymatebion i'r ymgynghoriad** **5**

**Crynodeb o'r ymatebion** **5**

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno y bydd y cyngor a roddir yn y canllawiau ar CAPau yn cefnogi awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod y broses CAP yn fwy ystyrlon ac effeithiol i blant sy'n derbyn gofal? 5

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn ymdrin yn ddigonol â phopeth sydd ei angen i gefnogi awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod CAPau yn fwy ystyrlon ac effeithiol i blant sy'n derbyn gofal? 7

Cwestiwn 3 – Os ydych yn anghytuno â'r datganiad yng Nghwestiwn 2, beth arall y dylid ei gynnwys yn y canllawiau? 7

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn rhoi digon o gyngor i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau ar sicrhau bod y broses CAP yn canolbwyntio ar y plentyn? 9

Cwestiwn 5 – A oes unrhyw ffynonellau cymorth neu adnoddau eraill y gallai fod yn ddefnyddiol tynnu sylw atynt yn y canllawiau? 10

Cwestiwn 6 – Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y canllawiau ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. 11

Cwestiwn 7 – Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y canllawiau er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? 12

Cwestiwn 8 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt. 13

**Yr ymateb arall i'r ymgynghoriad** **14**

**Crynodeb** **14**

**Y camau nesaf** **15**

## Cyflwyniad

Drwy Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb, mae Llywodraeth Cymru am i bob plentyn gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu a'u mwynhau a chael yr addysg orau bosibl er mwyn datblygu ac ehangu ei wybodaeth, ei sgiliau a'i brofiad.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal .

Mae Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi cyngor ar ddyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â chynlluniau gofal a chymorth, gan gynnwys iechyd ac addysg.

Cynllun i blant sy'n derbyn gofal yw cynllun gofal a chymorth Rhan 6. Mae'n dwyn ynghyd wybodaeth allweddol o'r asesiad o anghenion datblygiadol y plentyn ac unrhyw asesiadau eraill o'r plentyn a'i deulu. Mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i baratoi cynllun iechyd, Cynllun Addysg Personol (CAP), a chynllun lleoli ar gyfer y plentyn. Dylai'r rhain gael eu cynnwys yng nghynllun gofal a chymorth Rhan 6 cyffredinol y plentyn.

Mae'r CAP yn galluogi plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n eu cefnogi i nodi'r strategaethau gorau i'w helpu i wneud cynnydd o ran eu haddysg, a'u rhoi ar waith.

O fis Hydref 2024-2025, bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r sector i lunio canllawiau anstatudol drafft y bwriedir iddynt gefnogi awdurdodau lleol ac ysgolion i sicrhau bod CAPau yn fwy ystyrlon ac effeithiol i blant sy'n derbyn gofal.

Bu Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol i ddatblygu'r canllawiau ar CAPau. Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen CAPau a oedd yn cynnwys unigolion o awdurdodau lleol sydd â rhan strategol i'w chwarae wrth hyrwyddo addysg dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal. Roedd y grŵp gorchwyl a gorffen yn un o is-grwpiau'r Grŵp Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer addysg dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r Grŵp Cyflawni Cenedlaethol yn cynnwys rhanddeiliaid allanol o Estyn, Consortia, awdurdodau lleol a'r trydydd sector sy'n gweithio i hyrwyddo a chefnogi deilliannau addysgol plant â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru. Rhannwyd fersiynau drafft o'r canllawiau â'r Grŵp Cyflawni Cenedlaethol a Grŵp Swyddogion Adolygu Annibynnol Cymru gyfan.

Bu Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gyda phartneriaid, gan gynnwys swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, awdurdodau lleol (Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot, Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe), Adoption UK a Voices from Care, i gael gwybod barn dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal am eu haddysg a pha gymorth sydd ei angen arnynt. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys sesiwn ymgysylltu ar wahân gyda dysgwyr digwmni sy'n ceisio lloches, wedi'i hwyluso gan Voices from Care a Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru.

Dyma a ddywedodd y bobl ifanc wrthym:

- Gwrandewch arnom ni
- Mae angen cydnabod anghenion llesiant a'u cefnogi
- Addysgwch weithwyr proffesiynol am anghenion pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal
- Mae angen herio stigma a bwlio
- Mae angen cael dealltwriaeth o bynciau/amgylchiadau a allai fod yn ‘sbardun’
- Peidiwch â'n tynnu ni allan o wersi
- Byddwch yn empathetig ynghylch cyfnodau pontio
- Cefnogwch ein dyheadau gyrfa
- Rhowch gyfleoedd i ni (pobl ifanc digwmni sy'n ceisio lloches) gael addysg lawn

Defnyddiwyd y safbwyntiau hyn i lywio'r canllawiau drafft.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafodd ymgynghoriad ar y canllawiau drafft ei gynnal rhwng 6 Hydref a 1 Rhagfyr 2025. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ddiolchgar i'r unigolion hynny a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad.

Cafwyd safbwyntiau gan 19 o ymatebwyr. Roedd y rheini a ymatebodd yn dod o sefydliadau ym mhob rhan o'r sector gan gynnwys awdurdodau lleol, ysgolion, y trydydd sector, undebau addysg, cyrff cyhoeddus a'r byd academaidd. Ceir rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd ac a oedd yn fodlon i ni rannu eu manylion yn Atodiad A.

## Crynodeb o'r ymatebion

Mae'r adran hon yn rhoi dadansoddiad o'r atebion i bob un o'r wyth cwestiwn a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad, a atebwyd gan 18 o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad. Caiff yr ymateb arall, na ddilynodd y strwythur hwn, ei ddadansoddi o dan ‘yr ymateb arall i'r ymgynghoriad’.

### Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno y bydd y cyngor a roddir yn y canllawiau ar CAPau yn cefnogi awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod y broses CAP yn fwy ystyrlon ac effeithiol i blant sy'n derbyn gofal?

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn |
|---|---|---|---|
| 94%<br>(16 o ymatebwyr) | | 6%<br>(1 ymatebydd) | 17 |

DS: Cafwyd un ymateb gwag i'r cwestiwn hwn
Roedd mwyafrif helaeth yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r cyngor a roddir yn y canllawiau ar CAPau yn cefnogi awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod y broses CAP yn fwy ystyrlon ac effeithiol i blant sy'n derbyn gofal.

Cyflwynodd ymatebwyr y sylwadau ychwanegol canlynol:

**Cryfderau'r Canllawiau**

- Maent yn darparu fframwaith clir ar lesiant a chynnydd addysgol.
- Maent yn cynnwys map proses ac astudiaethau achos i sicrhau bod CAPau yn fwy ystyrlon.
- Ffocws cryf ar lais y plentyn, gan sicrhau y caiff safbwyntiau eu casglu ac y gweithredir arnynt.
- Maent yn hyrwyddo prosesau cydweithio amlasiantaethol, adolygiadau amserol, ac ymdrechion i integreiddio cymorth emosiynol a chymorth iechyd meddwl.
- Maent yn cyfeirio at egwyddorion pwysig o'r Siarter Rhianta Corfforaethol ac yn ymdrin â materion fel iechyd meddwl.

**Pryderon a risgiau**

- Heb swyddogion CAP dynodedig, mae sut y caiff y cynlluniau eu rhoi ar waith gan ysgolion yn debygol o amrywio'n sylweddol.
- Canllawiau anstatudol yw'r canllawiau hyn, sy'n cyfyngu ar eu hawdurdod, ac felly mae'n bosibl na chânt eu dilyn. Mae risg y bydd CAPau yn troi'n ymarfer blwch ticio.
- Cymhlethdod gan eu bod yn cynnwys dolenni i'r cyfrifoldebau statudol ar CAPau (fel amserlenni) yn y Cod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy'n Derbyn Gofal a Phlant sy'n Cael eu Lletya), yn hytrach na'u nodi eto yn y canllawiau ar CAPau. Gallai hyn olygu llai o eglurder.
- Diffyg safonau a disgwyliadau cenedlaethol ar draws awdurdodau lleol.

**Argymhellion**

- Sicrhau y caiff adolygiadau CAP eu hintegreiddio i mewn i adolygiadau plant sy'n derbyn gofal a'u bod yn gyson â phrosesau ysgolion (e.e. Cynlluniau Datblygu Unigol (CDUau).
- Cyflwyno templedi cenedlaethol a systemau sicrhau ansawdd er mwyn monitro effaith.
- Darparu camau ymarferol i ymarferwyr i sicrhau bod CAPau yn cael effeithiau gwirioneddol.
- Defnyddio canfyddiadau adolygiad thematig arfaethedig Estyn i atgyfnerthu canllawiau yn y dyfodol.
- Sicrhau bod CAPau yn hyblyg ond yn gyson, yn enwedig i blant sy'n symud rhwng ysgolion neu awdurdodau lleol.
- Darperir enghreifftiau da o sut y gellid casglu safbwyntiau plant, ond nid oes llawer o sôn am y ffaith na fydd plant o bosibl am gymryd rhan mewn gwahanol agweddau ar broses y CAPau.
- Gellid rhoi gwybodaeth gliriach hefyd am y broses o roi adborth i blant am yr hyn a ddigwyddodd o ganlyniad i'w safbwyntiau.

## Cwestiwn 2 – Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn ymdrin yn ddigonol â phopeth sydd ei angen i gefnogi awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod CAPau yn fwy ystyrlon ac effeithiol i blant sy'n derbyn gofal?

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn |
|---|---|---|---|
| 53%<br>(9 ymatebydd) | 29%<br>(5 ymatebydd) | 18%<br>(3 ymatebydd) | 17 |

DS: Cafwyd un ymateb gwag i'r cwestiwn hwn

Roedd gwahaniaeth barn wrth ystyried a yw'r canllawiau yn ymdrin yn ddigonol â phopeth sydd ei angen i gefnogi awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau i sicrhau bod CAPau yn fwy ystyrlon ac effeithiol i blant sy'n derbyn gofal.

Tynnodd ymatebwyr sylw at y canlynol:

**Agweddau cadarnhaol ar y Canllawiau drafft**

- Maent yn diffinio CAPau effeithiol fel cynlluniau o ansawdd uchel, wedi'u personoli, dan berchenogaeth y plentyn.
- Maent yn pwysleisio bod llesiant emosiynol a llesiant meddwl wrth wraidd y broses.
- Maent yn annog gweithio mewn partneriaeth; prosesau sicrhau ansawdd ac yn cefnogi atebolrwydd ar draws gwasanaethau.
- Maent yn darparu egwyddorion a strategaethau i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol.
- Maent yn cwmpasu'r gofynion sylfaenol ar gyfer CAPau.

Rhoddodd 13 o ymatebwyr adborth ansoddol ar beth arall y dylid ei gynnwys yn y canllawiau. Er mwyn sicrhau y cafodd pob ateb ei ystyried, cafodd y gwaith o ddadansoddi'r ymatebion hyn ei integreiddio i'r gwaith o ddadansoddi cwestiwn 3 isod.

## Cwestiwn 3 – Os ydych yn anghytuno â'r datganiad yng Nghwestiwn 2, beth arall y dylid ei gynnwys yn y canllawiau?

Atebodd wyth ymatebydd y cwestiwn hwn a chafodd eu hadborth ei gynnwys yn yr adborth a roddwyd gan yr 13 o ymatebion a gafwyd i gwestiwn 2, a dynnodd sylw at beth arall y dylid ei gynnwys yn y canllawiau:

**Materion a nodwyd yn y canllawiau**

<u>Monitro a chydymffurfiaeth</u>

- Nid yw'r canllawiau yn diffinio y dylid bod rôl cydgysylltydd ar lefel awdurdod lleol a fyddai'n helpu i fonitro cydymffurfiaeth.
- Mae angen canllawiau cliriach ar fonitro, camau atebolrwydd, a mesurau rhagweithiol.
- Darparu eglurder ar yr hyn a olygir wrth nodi bod CAPau yn ddogfennau 'byw'. Nododd un ymatebydd mai dim ond yn unol ag amserlenni statudol y mae CAPau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd yn ei ardal.

Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn

- Nodi sut i greu amodau lle mae plant yn teimlo y gallant rannu eu safbwyntiau e.e. ystyried oedran y plentyn, ei anghenion ieithyddol a'i alluedd.
- Cysylltu camau gweithredu yn y CAP â safbwyntiau plant.
- Yn dilyn cyfarfod y CAP, rhoi gwybodaeth i blentyn nad oedd modd iddo/nad oedd am fynychu'r cyfarfod.
- Nodi sut i reoli achos o wrthdaro rhwng yr hyn y mae plentyn am iddo ddigwydd a beth fydd/na fydd yn digwydd.
- Nid yw pob person ifanc yn cael anawsterau ymlyniad – dylid ystyried diwygio neu aralleirio – gallai'r un peth fod yn wir ar gyfer 'canolbwyntio ac ymddygiad'.

Rolau a chyfrifoldebau

- Darparu disgwyliadau cliriach ar gyfer sut y dylai gweithwyr iechyd a CAMHS proffesiynol gyfrannu at gyfarfodydd CAP, rhannu gwybodaeth, a chylchoedd adolygu.
- Rhoi canllawiau i ysgolion ar sut i ddehongli argymhellion iechyd meddwl mewn CAP ac ymateb iddynt.
- Nid yw Gofalwyr Maeth yn cymryd rhan mewn modd cyson ac nid yw dogfennau CAP ar gael iddynt.

Eglurhad

- Anghysondeb yn y canllawiau o ran statws CAPau mewn perthynas â Chynlluniau Llwybr ôl-16
- Mae angen mwy o eglurder o ran sut mae CAPau yn rhyngweithio â CDUau. Mae diffyg integreiddiad rhwng CAPau a CDUau yn arwain at fylchau o ran cymorth.
- Dim cydnabyddiaeth
    - o ran 'lleoliad' y ddogfen o ran addysg/gwasanaethau plant
    - gwahanol fformatau ar gyfer CAPau rhwng awdurdodau lleol
- Map proses y CAP:
    - nodi pa mor aml y dylid adolygu'r CAP
    - amlinellu'r argymhellion adolygu pan fydd y person ifanc yn symud cartref neu ysgol
    - amlinellu a ddylai person ifanc 16 oed roi cydsyniad i gynllun llwybr
    - pennu'r amserlen statudol o 20 diwrnod yn y blwch cyntaf ar y brig sy'n amlinellu'r cyfnod argyfwng o 10 diwrnod.

**Argymhellion ar gyfer gwella'r canllawiau**

- Diffinio rôl y person dynodedig, disgwyliadau o ran cydymffurfiaeth, a phrosesau uwchgyfeirio.
- Rhoi enghreifftiau o sut i gynnwys gofalwyr a phobl ifanc wrth bennu nodau, sut i gysylltu CAPau â chynlluniau iechyd a gofal, a'r prosesau ar gyfer cynllunio'r cyfnod pontio os bydd unigolyn yn symud ysgol.
- Cyfeirio at y cymorth a roddir gan sefydliadau yn y trydydd sector.
- Mewn perthynas ag eirioli, ychwanegu "proffesiynol" cyn "annibynnol" ym mharagraff 23 a thynnu sylw at rôl eiriolwyr nad ydynt yn weithwyr proffesiynol (oedolion yr ymddiriedir ynddynt) yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Integreiddio CAPau â phrosesau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a CDUau er mwyn osgoi achosion o ddyblygu. Dylid cyfuno CDUau a CAPau a'u hadolygu gyda'i gilydd.
- Fframio disgwyliadau fel gofynion, nid canllawiau dewisol.
- Dynodi'r safonau gofynnol ar gyfer cynnwys CAPau, gan gynnwys sut i adrodd
- ar gynnydd a phresenoldeb yn ogystal â chyrhaeddiad.
- Hyrwyddo CAPau fel adnodd i alluogi lleoliadau mwy sefydlog, gan ymdrin ag achosion o darfu ar addysg plant sy'n derbyn gofal.

**Ystyriaethau gweithredu**

- Sicrhau bod gan ysgolion ddigon o adnoddau a chyllid i roi'r canllawiau ar waith yn effeithiol.
- Darparu hyfforddiant i bersonau dynodedig.
- Llunio fframwaith cenedlaethol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol.

## Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno bod y canllawiau yn rhoi digon o gyngor i awdurdodau lleol, ysgolion a lleoliadau ar sicrhau bod y broses CAP yn canolbwyntio ar y plentyn?

| Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Cyfanswm yr ymatebion i'r cwestiwn hwn |
|---|---|---|---|
| 78%<br>(14 o ymatebwyr) | 11%<br>(2 ymatebydd) | 11%<br>(2 ymatebydd) | 18 |

Tynnodd ymatebwyr sylw at y canlynol:

**Cryfderau'r canllawiau**

- Maent yn hyrwyddo ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn cynnal Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).
- Maent yn annog camau i ystyried llais y plentyn, llesiant emosiynol, ac ymwybyddiaeth o drawma.

- Drwy ganolbwyntio ar ddyheadau personol a llesiant, ochr yn ochr â chynnydd academaidd, maent yn darparu sylfaen gryf ar gyfer ymgysylltu ystyrlon.
- Maent yn tynnu sylw at yr angen i sicrhau amgylchedd diogel a chefnogol yn ystod cyfarfodydd CAP.
- Maent yn cydnabod adnoddau fel y proffil un dudalen er mwyn sicrhau cyfnodau pontio a phrosesau rhannu gwybodaeth hwylus.

**Argymhellion ar gyfer gwella'r canllawiau**

- Darparu enghreifftiau ymarferol o gynnwys llais y plentyn yn effeithiol fel rhan o'r broses ar gyfer y CAP a sicrhau ymgysylltu ystyrlon. Roedd yr enghreifftiau a awgrymwyd yn cynnwys siarad wrth chwarae pêl-droed, adeiladu Lego, neu ganiatáu i'r plentyn greu fideo.
- Egluro sut y caiff CAPau dwyieithog eu cefnogi a'u monitro, yn enwedig i blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir lle gall darpariaeth Gymraeg fod yn gyfyngedig.
- Sicrhau y caiff egwyddorion sy'n canolbwyntio ar y plentyn eu cymhwyso'n gyson ar draws awdurdodau lleol.
- Cynnwys llwybrau cyfranogi o bell neu lwybrau cyfranogi amgen.
- Darparu canllawiau clir o ran sut y dylid cofnodi llais y plentyn a gweithredu arno, yn enwedig yn ystod adolygiadau a chyfnodau pontio.
- Pennu'r disgwyliadau sylfaenol ar gyfer hyfforddiant ystyriol o drawma ac ystyriol o ymlyniad i weithwyr proffesiynol.
- Sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael digon o wybodaeth i'w helpu i baratoi eu meddyliau yn llawn, neu mae'n bosibl y caiff eu llais ei golli ac na chaiff ei glywed.

**Ystyriaethau gweithredu**

- Sicrhau bod digon o amser wedi'i neilltuo fel rhan o'r broses CAP i baratoi a meithrin ymddiriedaeth.
- Sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol y gallu i ymgysylltu'n ystyrlon â phlant.
- Gwella dulliau cyfathrebu ac ymwybyddiaeth fel bod plant yn deall beth yw CAP a phryd y caiff cyfarfodydd eu cynnal.
- Hyrwyddo CAPau fel adnodd i alluogi lleoliadau mwy sefydlog, gan ymdrin ag achosion o darfu ar addysg plant sy'n derbyn gofal.

## Cwestiwn 5 – A oes unrhyw ffynonellau cymorth neu adnoddau eraill y gallai fod yn ddefnyddiol tynnu sylw atynt yn y canllawiau?

Atebodd wyth ymatebydd y cwestiwn hwn. Gwnaethant awgrymu'r ffynonellau cymorth a'r adnoddau ychwanegol canlynol y byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw atynt yn y canllawiau:

- Llinell gymorth Comisiynydd Plant Cymru
- SNAP Cymru, sefydliad trydydd sector sy'n rhoi cymorth i blant ag ADY
- Llinell Gymorth Meic sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru

- Adnoddau Prosiect Paratoi Plant yng Nghymru Prosiect Paratoi | Ein Hadnoddau
- Adroddiadau thematig Estyn:
  - Dull ysgol gyfan i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
  - Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal - adroddiad arfer orau
- Cyngor yr Undeb Addysg Cenedlaethol i ysgolion ar Preventing and Reducing Exclusions / Support Looked After Children in Care
- Canllawiau NICE i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal Overview | Looked-after children and young people | Guidance | NICE
- Lundy's Model of Participation sy'n anelu at ddarparu fframwaith cysyniadol i gefnogi hawl plant i gyfranogi.
- Adnoddau Helen Sanderson:
  - decisionmakingagreement-fillable.pdf
  - Decision-making-profile-fillable.pdf
- Hyfforddiant neu adnoddau cenedlaethol i ofalwyr maeth; personau dynodedig a thimau plant sy'n derbyn gofal
- Deunyddiau cymorth cyfrwng Cymraeg gan y Coleg Cymraeg.
- Ychwanegu dolenni i ganllawiau ymarfer sy'n ystyriol o drawma, cymorth iechyd meddwl a llesiant a dolenni i ddeunyddiau ar ymlyniad a gwydnwch.
- Ymchwil i weithio gyda phlant gan ddefnyddio dulliau creadigol.
- Darparu gwybodaeth am rwydweithiau cymorth canolog neu fforymau ar gyfer rhannu arferion gorau ar draws awdurdodau lleol ac ysgolion.
- Dolenni i bob awdurdod lleol a allai gyfeirio gofalwyr/ysgolion at wasanaethau yn lleol

## Cwestiwn 6 – Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y canllawiau ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol? Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?**

Atebodd 14 o ymatebwyr y cwestiwn hwn a thynnwyd sylw at y canlynol:

**Egwyddorion Allweddol**

- Dylai'r canllawiau gynnal egwyddorion CCUHP, gan barchu diwylliant ac iaith y plentyn.
- Dylid cwblhau CAPau yn newis iaith y plentyn neu'r person ifanc (Cymraeg, Saesneg, neu arall) ac yn ddelfrydol, dylai'r oedolion sy'n eu cefnogi rannu'r iaith honno.
- Cynnig hyfforddiant ac adnoddau i ysgolion ymdrin â CAPau dwyieithog.
- Cynnwys canllawiau ar gyfer ieithoedd ychwanegol, gan ymdrin ag anghenion

plant sy'n ceisio lloches a phlant ag amrywiaethau ieithyddol.
- Sicrhau bod canllawiau a'r holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg.

**Cyfleoedd Cadarnhaol**

- Atgyfnerthu'r canllawiau i annog defnyddio'r Gymraeg mewn CAPau.
- Sicrhau bod CAPau a'r deunyddiau ategol ar gael yn ddwyieithog.
- Darparu opsiynau cymorth o bell ar gyfer darpariaeth Gymraeg lle bo'r adnoddau lleol yn brin.
- Pwysleisio'r ffaith bod dewis iaith yn allweddol wrth gynnwys llais y plentyn.

**Materion ehangach a nodwyd**

- Dengys canfyddiadau Estyn fod y ddarpariaeth ADY cyfrwng Cymraeg yn anghyson ac weithiau'n wan, gan greu risg o “anfantais ddwbl” i'r dysgwyr hyn.

## Cwestiwn 7 – Yn eich barn chi, a ellid llunio neu newid y canllawiau er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

Atebodd saith ymatebydd y cwestiwn hwn a thynnwyd sylw at y canlynol:

**Argymhellion allweddol ar gyfer atgyfnerthu'r canllawiau**

- Cynnwys darpariaeth ddwyieithog fel gofyniad gorfodol ar gyfer CAPau a dogfennaeth gysylltiedig
- Ei gwneud yn ofynnol i CAPau ddogfennu dewis iaith a darpariaeth iaith y plentyn, yn unol â Mesur y Gymraeg
- Darparu opsiynau ar gyfer cymorth Cymraeg, gan gynnwys datrysiadau rhithwir, yn enwedig i blant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir neu leoliadau lle nad oes staff sy'n siarad Cymraeg.
- Paratoi ysgolion i ymdrin â CAPau dwyieithog yn effeithiol.

**Materion ehangach a nodwyd**

- Sicrhau bod cymorth Cymraeg ar gael i ofalwyr maeth a lleoliadau preswyl.
- Gwarantu bod asesiadau iechyd meddwl, asesiadau ADY a gwasanaethau eirioli ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ni ddylid gorfodi plant sy'n awyddus i ddefnyddio'r Gymraeg i siarad Saesneg na dibynnu ar gyfieithwyr, gan fod prosesau sy'n gysylltiedig â gofal eisoes yn drawmatig.
- Mae sicrhau bod ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rhan o weithdrefnau gweithredol yn annog defnydd rhagweithiol o'r iaith, yn hytrach nag argaeledd goddefol, sy'n helpu i normaleiddio'r Gymraeg wrth ryngweithio o ddydd i ddydd.

## Cwestiwn 8 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Atebodd saith ymatebydd y cwestiwn hwn a thynnwyd sylw at y canlynol:

### Materion allweddol a nodwyd

- Lleoliadau Brys: Mae'r terfyn amser o 10 diwrnod gwaith ar gyfer lleoliadau brys yn dibynnu ar hysbysu'r gwasanaethau perthnasol mewn modd amserol bod plentyn wedi cael ei osod mewn lleoliad brys. Yn aml, ceir oedi wrth hysbysu'r gwasanaethau perthnasol (hyd at bythefnos), gan effeithio ar gymorth amserol.
- Adolygu CDUau: Mae'r geiriad presennol yn awgrymu adolygiadau blynyddol yn unig; argymhellir y dylid eu hadolygu fel y bo angen, ond o leiaf unwaith y flwyddyn.
- Ysgolion Annibynnol: Trefniadau goruchwylio gwan gan awdurdodau lleol ar gyfer profiadau a deilliannau addysgol plant â phrofiad o fod mewn gofal mewn ysgolion annibynnol.

### Argymhellion

<u>Prosesau</u>

- Parhau i gynnwys llais y plentyn neu'r person ifanc fel rhan o brosesau datblygu ac adolygu.
- Dylai data CAP fwydo i mewn i baneli rhianta corfforaethol a thystiolaeth arolygu.
- Dylid bod pwyslais cryfach ar fonitro, atebolrwydd a chysondeb statudol. Dylid gwerthuso'r broses CAP yn rheolaidd gan ystyried adborth gan blant, gofalwyr, gweithwyr cymdeithasol, ac ymarferwyr iechyd.
- Rhoi prosesau sicrhau ansawdd ar waith er mwyn sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol. Rhoi eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddilysu enghreifftiau a sicrhau cysondeb ar draws awdurdodau lleol.
- Sicrhau bod CAPau yn gyson â CDUau statudol er mwyn osgoi dyblygu; dylid ystyried adolygu CDUau plant sy'n derbyn gofal bob chwe mis.
- Gallai'r broses o adolygu CAPau fod yn haws os caiff ei chynnal bob tymor; fel arall, nodi na ddylid pennu dyddiad ar gyfer adolygiad bob chwe mis o CAP yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Byddai llwyfan digidol cenedlaethol diogel ar gyfer CAPau yn gwella hygyrchedd a phrosesau cydweithio rhwng rhanddeiliaid.
- Sicrhau bod prosesau yn syml ac yn hawdd i weithwyr proffesiynol eu defnyddio

<u>Ystyriaethau eraill</u>

- Prinder gwaith ymchwil ar CAPau a'u heffaith ar brofiadau a deilliannau plant, gallai fod yn ddefnyddiol cydnabod hyn yn y canllawiau
- Rhoi canllawiau ar annog parch diwylliannol a chynhwysiant yn unol â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

- Cynnwys cyngor ar gefnogi dysgu digidol a mynediad i dechnoleg.

Cymorth i'r gweithlu

- Cynnal Asesiad o'r Effaith ar Lwyth Gwaith a lliniaru beichiau ychwanegol.
- Blaenoriaethu cyllid a buddsoddi, yn enwedig ar gyfer ADY.
- Cynyddu nifer y staff cymorth er mwyn rheoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth.
- Darparu hyfforddiant ar ymarfer sy'n ystyriol o drawma, ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, a niwroamrywiaeth.

## Yr ymateb arall i'r ymgynghoriad

Cafwyd ymateb pellach nad oedd yn dilyn strwythur cwestiynau'r ymgynghoriad. Tynnwyd sylw at y canlynol:

- Dylai'r cydgysylltydd Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal (LACE) fynychu'r cyfarfod CAP cyntaf.
- Mae'r system bresennol lle mae'r awdurdod lleol yn trefnu ac yn cadeirio CAPau wedi creu'r CAPau o'r ansawdd gorau a welodd yr awdurdod lleol yn ystod y degawd diwethaf.
- Mae'r map proses yn nodi 20 diwrnod – dylai nodi 20 diwrnod ysgol.
- Ni fydd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol y capasiti i gynnal CAPau i ddisgyblion sy'n hŷn nag oedran ysgol statudol.
- Mae pwynt 51 yn awgrymu y dylai Swyddogion Adolygu Annibynnol fynychu cyfarfodydd CAP. Mae bron i 300 o blant oedran ysgol sy'n derbyn gofal yn ardal yr awdurdod lleol. Mae o leiaf ddau gyfarfod CAP yn cael eu cynnal bob blwyddyn ar gyfer pob plentyn. Byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r Swyddog Adolygu Annibynnol fynychu 600 o gyfarfodydd ychwanegol bob blwyddyn.

## Crynodeb

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Cafwyd adborth ar syniadau yn nodi sut y gellir atgyfnerthu a gwella cynnwys y canllawiau a oedd yn cynnwys y themâu canlynol:

- **Y Gymraeg:** Atgyfnerthu'r canllawiau i hybu'r effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, er enghraifft, dylai CAPau fod yn ddwyieithog; dylid cydnabod dewis iaith y plentyn; dylai CAPau ddogfennu dewis iaith y plentyn ar gyfer ei ddarpariaeth addysgol.
- **Prosesau ADY a CDU:** Sicrhau bod y broses wedi'i hintegreiddio â phrosesau ADY a CDU er mwyn osgoi achosion o ddyblygu a sicrhau bod trefniadau cydweithio ar waith.
- **Rolau, cyfrifoldebau, a chydweithio amlasiantaethol:** Darparu disgwyliadau cliriach ar gyfer iechyd, CAMHS, a chyfranogiad gofalwyr maeth; a'r angen am swyddogion a chydgysylltwyr CAP dynodedig ar lefel awdurdod lleol.
- **Gofynion statudol:** Fframio disgwyliadau fel gofynion er mwyn hyrwyddo cysondeb o ran arferion da ac atal amrywiadau ar draws lleoliadau.

- **Ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn:** Hyrwyddo parch tuag at egwyddorion CCUHP, diwylliant, ac iaith; tynnu sylw at ddulliau sy'n ystyriol o drawma ac sy'n ymwybodol o ymlyniad; pwysleisio pwysigrwydd paratoi plant ar gyfer cyfarfodydd CAP a llais y plentyn yn y broses CAP.
- **Adnoddau:** Ychwanegu dolenni i adnoddau o ffynonellau fel Comisiynydd Plant Cymru, Plant yng Nghymru, Snap, Estyn a NICE.
- **Map proses y CAP:** Ailddiffinio map proses y CAP er mwyn sicrhau eglurder o ran amserlenni a rolau.

Cyflwynodd ymatebwyr y cyngor canlynol ar y broses weithredu:

- **Materion yn ymwneud â'r gweithlu:** Dylai'r awdurdod lleol greu swydd cydgysylltydd CAP i helpu i roi proses y CAP ar waith ac i fonitro'r broses honno ac i annog prosesau cydweithio amlasiantaethol. Sicrhau bod digon o adnoddau ac amser ar gael i athrawon a Swyddogion Adolygu Annibynnol gefnogi proses y CAP yn effeithiol.
- **Hyfforddiant:** Rhoi hyfforddiant i ofalwyr maeth; personau dynodedig a thimau plant sy'n derbyn gofal a phennu'r disgwyliadau sylfaenol ar gyfer hyfforddiant ystyriol o drawma ac ystyriol o ymlyniad i weithwyr proffesiynol.
- **Cysondeb cenedlaethol:** Gwella cysondeb ac ansawdd CAPau drwy gyflwyno templed cyffredin ar eu cyfer; llwyfan digidol ar gyfer CAPau a systemau sicrhau ansawdd ledled Cymru.

## Y camau nesaf

Caiff yr adborth a ddaw i law mewn ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad ei ystyried wrth lywio'r gwaith o ddatblygu'r canllawiau CAP terfynol a'u rhoi ar waith. Caiff y materion ehangach a nodwyd gan ymatebwyr (er enghraifft o ran ADY a gofal cymdeithasol) eu rhannu â'r arweinwyr polisi perthnasol yn Llywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector a rhanddeiliaid allweddol eraill i hyrwyddo addysg plant sy'n derbyn gofal.

**Atodiad A: Y sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad ac a oedd yn fodlon i'w manylion gael eu rhannu**

- Plant yng Nghymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Estyn
- Ysgol Kings Monkton
- NASUWT
- Yr Undeb Addysg Cenedlaethol
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Y Rhwydwaith Maethu
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Prifysgol Sussex/Bwrdeistref Waltham Forest yn Llundain